| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 Mehefin 2023** |
| **TEITL:** | **Canlyniadau Ymgynghori Strategaeth Iaith Gwynedd 2023** |
| **AWDUR:** | Gwenllian Mair Williams, Ymgynghorydd Iaith a<br>Nia Wyn Vaughan, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno canlyniadau cychwynnol yr ymgynghoriad gan y gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, a gwahodd sylwadau gan yr aelodau am ymateb posib yr Uned Iaith a Chraffu wrth lunio'r strategaeth derfynol.** |

## 1 CEFNDIR

1.1 Gosodir gofyn ar y Cyngor o fewn Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i lunio strategaeth 5 mlynedd sydd yn nodi sut y maent yn bwriadu mynd ati i hyrwyddo a hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir, a sut mae'n bwriad cyfrannu at amcanion cenedlaethol Cymraeg 2050 i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg.

1.2 Gan fod cyfnod y strategaeth hybu bresennol yn dod i ben yn yr Hydref, dechreuwyd ar broses adolygu yn gynnar yn 2023. Cynhaliwyd sesiynau trafod yn ystod mis Ionawr gydag aelodau Cabinet, aelodau'r Pwyllgor Iaith ac aelodau Fforwm Iaith Gwynedd er mwyn hel syniadau a chael eu mewnbwn ar gynnwys posib y strategaeth.

1.3 Lluniwyd drafft ymgynghori o'r strategaeth newydd ar sail y trafodaethau hynny a chynhaliwyd cyfnod ymgynghori ar y strategaeth ddrafft rhwng **17 Ebrill a 21 o Fai 2023**.

1.4 Cafodd y strategaeth ddrafft, felly, ei chreu fel dilyniant i waith y strategaeth bresennol (*Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23)* er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y sir ac i fodloni'r gofynion statudol a osodir o fewn Safonau'r Gymraeg. Y weledigaeth yw creu strategaeth gynhwysol sy'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

## 2 CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

2.1 Lluniwyd holiadur, oedd yn gofyn nifer o gwestiynau er mwyn casglu barn y cyhoedd ar gynnwys y strategaeth ddrafft, yr amcanion oedd wedi eu nodi, a'r meysydd gweithredu oedd yn cael eu hawgrymu. Gellir gweld copi o'r cwestiynau ymgynghori yn **Atodiad 2**.

2.2 Cafwyd **159 o ymatebion** i'r ymgynghoriad ar lein, ac mae'r adroddiad dadansoddi sydd wedi ei gyflwyno yn **Atodiad 1** yn adlewyrchu'r ymatebion hynny. Derbyniwyd 1 ymateb dros e-bost (nad oedd yn dilyn y templed cwestiynau ymgynghori) a bydd yr Ymgynghorwyr Iaith yn ystyried cynnwys yr ymateb hwnnw ochr yn ochr gyda chanlyniadau llawn yr ymatebion ar-lein.

2.3 Cafwyd trawstoriad da o ymatebion o bob rhan o’r sir. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr rhwng 35 a 74 oed. Dim ond 3 ymateb gafwyd gan bobl dan 34 oed, sydd ychydig yn bryderus, a bydd angen i ni ystyried yn ofalus sut yr ydym yn casglu barn y garfan yma o’r gymuned yn y dyfodol.

2.4 Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i gynnwys y strategaeth ddrafft yn dda. Roedd y gyfradd gytuno ar gyfer ffrydiau gwaith pob maes gweithredu yn uchel. Roedd 72.3% o’r ymatebwyr yn cytuno gyda’r bwriad i ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg.

2.5 O ran y themâu cyffredin oedd yn codi o’r ymatebion, roedd sicrhau cyfleoedd digonol ac addas i bobl ddysgu Cymraeg ac i fagu hyder wrth siarad Cymraeg yn thema a gododd yn rheolaidd, ac mewn ymateb i sawl cwestiwn. Roedd sylwadau llai cadarnhaol megis na ddylai’r Cyngor ddefnyddio’r Gymraeg fel ffordd o wahaniaethu, ac na ddylid gwastraffu adnoddau prin ar yr iaith hefyd yn themâu a gododd fwy nag unwaith.

## 3 CAMAU NESAF

3.1 Bydd angen i'r Ymgynghorwyr Iaith nawr ystyried pa newidiadau neu addasiadau y dylid eu gwneud i'r strategaeth derfynol er mwyn ymateb i rai o’r sylwadau yn yr ymgynghoriad. Er enghraifft, er ein bod wedi nodi dylanwad technoleg fel un o’r prif heriau sydd yn wynebu ffyniant y Gymraeg yng Ngwynedd, roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi nodi dylanwad cyfryngau cymdeithasol fel her. Bydd angen i ni ystyried felly sut mae dylanwad y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei amlygu ac yn cael sylw dan y thema technoleg, ac hefyd a oes yna unrhyw camau y gallwn eu cymryd i geisio cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol dan wahanol feysydd gweithredu.

3.2 Byddwn yn adolygu’r strategaeth ddrafft ar sail yr ymgynghori, ac yn rhannu’r drafft terfynol gydag adrannau mewnol er mwyn gallu adnabod yr union ffrydiau gwaith fydd yn ateb yr amcanion ac yn creu y rhaglen waith gychwynnol.

3.3 Bwriedir cyflwyno drafft terfynol y strategaeth i Gabinet y Cyngor ym mis Hydref 2023

## 4 ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i’r aelodau:

- dderbyn y dadansoddiad cryno a gyflwynir yn Atodiad 1 gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg
- cynnig unrhyw sylwadau ar y cynnwys a’r ymatebion ac am addasiadau posib i'r strategaeth derfynol mewn ymateb i'r ymgynghoriad.